

## PAM BYW YN ÔL SAFONAU'R BEIBL?

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Dangoswch yn eglur sut mae byw yn ôl safonau'r Beibl yn gwella ansawdd bywyd. Eglurwch fod y problemau mae llawer yn eu dioddef, yn aml oherwydd eu methiant eu hunain, yn fwriadol neu'n anfwriadol, i gymhwyso safonau'r Beibl. Wrth drafod yr is-bennawd olaf ond un, dangoswch wahanol rifynnau *The Watchtower* ac *Awake!*, a thynnwch sylw at y wybodaeth ymarferol sydd ynddynt

### **ODDI WRTH DDUW Y DAW SAFONAU'R BEIBL (5 mun.)**

Mae'r Beibl wedi cael ei ystyried yn arweiniad oddi wrth Dduw ers amser maith

Geiriau Abraham Lincoln, 16eg arlywydd yr Unol Daleithiau: "Rydw i'n credu mai'r Beibl yw'r rhodd orau a roddodd Duw i ddyn erioed"

William E. Gladstone, Gwleidydd Prydeinig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg: "Mae stamp Tarddiad Arbennig ar y Beibl, ac mae pellter difesur yn ei wahanu oddi wrth pob cystadleuydd"

Napoléon Bonaparte, ymerawdwr Ffrainc: "Nid dim ond llyfr yw'r Beibl, ond Creadur Byw, sydd â grym sy'n goresgyn pawb sy'n ei wrthwynebu" (*w92* 5/15 3)

Mae safonau'r Beibl yn barhaol, oherwydd eu Tarddiad yw'r Creawdwr, Jehofah (Eseia 40:8)

Rhodddwyd gan Dduw yn ei gariad at ei greadigaeth ddynol (Eseia 48:17, 18)

Cael ein hannog, nid ein gorfodi, i ufuddhau i orchmynion Duw

Canlyniad ufuddhau i safonau Duw yw heddwch a hapusrwydd (Diar 3:1, 2)

### **AMGYLCHIADAU'R BYD YN DANGOS FFOLINEB ANWYBYDDU SAFONAU'R BEIBL (10 mun.)**

Y rhelyw o'r ddynoliaeth yn dewis anwybyddu safonau Duw (Salmau 14:1-3)

Yn hytrach na bod cynnydd mewn cariad a heddwch, ceir trais a therfysgaeth cynyddol (*w90* 10/1 4-5)

Mae hunanoldeb yn rhemp, gyda difetha'r ddaear yn ganlyniad iddo

Mae bwyd, awyr, dŵr, a phridd wedi'u llygru

Er bod digon o fwyd ac adnoddau i bawb, mae tloedi a phrinder bwyd yn cerdded y ddaear (*g91* 5/8 28)

Mae methiant moesol wedi dod â dioddefaint ychwanegol i ifanc a hen (*g92* 1/22 3, 8-9)

Sefydlogrwydd teuluol yn cael ei fygwth yn gynyddol wrth i ysgariadau gynyddu'n ddirfawr

Mae caethiwed i gyffuriau wedi gyrru llawer i weithredu'n anfoesol ac at dorcyfraith

AIDS a chlefydau eraill a drosglwyddir yn rhywiol yn dod â diflastod ac yn difa nifer cynyddol o fywydau

Trachwant a materoliaeth yn "hyrddio dynion i lawr i ddistryw a cholledigaeth" (1Tim 6:9, 10)

Hunanladdiadau cynyddol, yn enwedig ymhlith ieuenctid, yn dangos anallu i ymdopi pan anwybyddir safonau'r Beibl

Yn sicr, 'ni pherthyn' i ddyn 'drefnu ei gamre' (Jer 10:23)

### **MAE'R BEIBL YN DARPARU SAFONAU INNI AR GYFER POB AGWEDD AR FYWYD (15 mun.)**

'Does dim gwahaniaeth pwy ydym na beth yw'n statws ni mewn bywyd, mae safonau Beiblaidd sy'n gymwys

Ymwneud aelodau teulu â'i gilydd (Eff 5:22-25, 28, 33; 6:1-4)

Mae gwŷr, fel penteuluoedd, i garu'u gwragedd fel eu cyrff eu hunain a magu plant i ddilyn safonau'r Beibl

Mae gwragedd i fod yn ddarostyngedig i'w gwŷr

Mae plant i anrhydeddu eu rhieni ac ufuddhau iddynt "yn yr Arglwydd"

Perthynas personol

Rhaid osgoi pob anfoesoldeb rhywiol (Heb 13:4)

Ymwneud yn onest ac yn eirwir â'n gilydd

Gwneud daioni bob amser a cheisio byw yn heddychlon â phawb (Rhuf 12:17, 18, 21)

Perthynas rhwng cyflogwr a chyflogedig (O ran egwyddor, gweler Effesiaid 6:5-7, 9)

Rhaid i gyflogwr drin cyflogedig yn gyfiawn

Rhaid i'r cyflogedig fod yn weithwyr cydwybodol

Perthynas â llywodraethau

Rhaid ymostwng a rhoi beth bynnag sy'n ddyledus i'r awdurdodau sy'n ben (Rhuf 13:1, 5-7)

Crynhair y safonau gan Iesu: Caru Duw a chymydog (Mth 22:37-40)

Bydd cariad at Dduw yn ein cymell ni i lynu wrth ei safonau (1In 5:3)

Bydd cariad at gymydog yn ein cymell ni i wneud gweithredoedd da ac ymgadw rhag pethau sy'n niweidio eraill (Gal 6:10)

### **MAE ANGEN HELP I FYW YN ÔL SAFONAU'R BEIBL (10 mun.)**

Rhaid gwrthsefyll dylanwad Satan a'r byd drwg sy'n ein hamgylchynu ni

Yr un pryd, rhaid adeiladu gwerthfawrogiad o Dduw a'i safonau cyfiawn (Salmau 119:97)

Golyga hyn ymdrech gydwbybodol ac astudio Gair Duw yn ddyfal (2Tim 2:15)

Bod yn ymwybodol o'n hangen ysbrydol

Prynu'r amser ar gyfer astudio personol

Parhau i geisio Teyrnas Dduw yn gyntaf

Bydd ofn digio Duw yn ein hamddiffyn hefyd (Diar 8:13)

Jehofah yn gwbl gyfiawn; pechod yn ei ddigio

'Fydd e ddim yn goddef rhai sy'n fwriadol dramgwyddo ei safonau cyfiawn (2Thes 1:8, 9)

Darperir help gan gyfundrefn weladwy Jehofah

*Watchtower, Awake!* a chyhoeddiadau eraill yn pwysleisio safonau Duw

Cyfarfodydd y gynulleidfa yn ein hannog i fyw yn ôl y safonau hyn

Henuriaid yn barod i roi help personol

Ceir help gan yr ysbryd sanctaidd drwy weddi (Lc 11:13)

**MAE BYW YN ÔL SAFONAU'R BEIBL YN GWNEUD SYNNWYR** (5 mun.)

Mae'r egwyddor sydd yn y Beibl yn wir: 'Rydym yn medi yr hyn a heuwn (Gal 6:7, 8)

Gallwn osgoi problemau y rhai sy'n anwybyddu safonau'r Beibl

Mae Jehofah yn ein gweld ac yn ein trin yn gyfatebol (1Pedr 3:10-12)

Daw byw yn ôl safonau'r Beibl â bendithion

Golyga iachawdwriaeth i ni'n hunain ac i eraill (1Tim 4:8, 16)

Gall ein cwrs osod esiampl fydd yn annog eraill

Mae'n sicrhau perthynas dda â Jehofah

Daw â budd cydwbybod lân

Mae'n cyflawni'r pwrpas y crewyd ni er ei fwyn, dod â gogoniant ac anrhydedd i Jehofah

Mae'n cyflwyno gobaith bendithion y dyfodol

Felly, cwrs gwir ddoethineb yw byw yn ôl safonau'r Beibl

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)